

DAFEN



Mae **Dafen** yn un o'r cymunedau sefydledig hynaf yn yr ardal Wledig gyda phoblogaeth o 3,557. Mae'n gartref i ysbyty'r Tywysog Phillip, sawl ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd. Mae nifer o gyflogwyr arwyddocaol wedi'u lleoli yng nghanol y gymuned yn rhannol oherwydd ei fod yn agos i'r A4138. Mae yma hefyd ardaloedd eang o dir heb ei ddatblygu yn ymylu ar yr ochr ddwyreiniol o'r ardal gyda'r potensial i gynnig cyfleoedd datblygu cyflogaeth bellach. Mae gan yr ardal y ganran uchaf o bobol rhwng 45-64 oed ac o gyfuno hyn â'r rhai dros 65 bydd gofynion y grŵp hwn yn fater arwyddocaol yn lleol yn yr 20 mlynedd nesaf. Roedd materion draenio yn bryder mawr a nodir yr ardal fel yr un sydd â'r perygl uchaf o lifogydd. Mae yna rai pocedi o faterion iechyd difrifol e.e. canser a phryderon ynglŷn â gofal am yr amgylchedd lleol. Daeth anghenion pobol ifanc yn nhermau cefnogaeth gyrfau a mynediad i gyflogaeth o ansawdd i'r amlwg mewn ymgynghoriadau lleol.

Materion

- Pobol Ifanc/Lefel Cyflogau- cynnydd i'r dyfodol
- Gwybodaeth am gymorth – hawliau/cytundebau
- Cysylltiadau ysgol a chymuned- cerddoriaeth dda, angen bod yn well ar chwaraeon
- Absenoldeb plant yn cymryd rhan mewn chwaraeon tu allan i'r ysgol
- Unigrwydd poblogaeth Hŷn – gweithgareddau i bobol hŷn yn ystod y dydd e.e. canolfan tai cysgodol – rhywbeth mwy arloesol na chlwb cinio
- Cyswllt parhaus â'r heddlu
- Iechyd– canser

Syniadau

- **Blaenoriaeth 1** – Grwpiau chwaraeon cymunedol a chysylltiad ysgol – defnydd o'r parc yn ystod y dydd/cyfleusterau, o bosibl yn defnyddio myfyrwyr Coleg Sir Gar
- **Blaenoriaeth 2**- Menter balchder cymunedol i daclo ansawdd amgylchedd lleol – Credydau Amser i gefnogi gofal cymdeithasol/gweithgaredd anffurfiol yn ystod y dydd
- **Blaenoriaeth 3** – Cefnogaeth gyrfau– cyngor am arian a hawliau ynghyd â gwybodaeth am gyfleoedd lleol e.e. peirianeg
 - Academi Sgiliau Bryngwyn– cefnogaeth lleoliad FE
 - Perthynas â phrosiectau Cymunedau'n Gyntaf –
 - Troi ardaloedd diffaith yn wyrdd – Pwll Dafen – ail agor mynediad